Cymorth Cynllunio Cymru
Planning Aid Wales

Cylchlythyr Cymunedol Cymorth Cynllunio Cymru

Ionawr 2012

Croeso a Flwyddyn Newydd Dda!

Helo, a chroeso i gyfrol y gaeaf o Gylchlythyr Cymunedol Cymorth Cynllunio Cymru. Yn y gyfrol hon mae newyddion, gwybodaeth a'r diweddaraf ar waith allgymorth, datblygu a hyfforddi Cymorth Cynllunio Cymru. Mae gennym newyddion am ddigwyddiadau a phrosiectau cyffrous i rannu â chi yn y chwarter hwn a gobeithiwn bod rhywbeth o ddiddordeb i bawb ynddo.

Mae'r Cylchlythyr Cymunedol yn dair blwydd oed y mis hwn! I ddathlu hyn, rydym yn cynnig blwch o siocledi i'r unigolyn fydd yn anfon yr **ateb mwyaf diddorol** i'r cwestiwn:

Beth mae cynllunio yn ei olygu i chi?

Anfonwch eich atebion i sioned@planningaidwales.org.uk

Mae'r system gwe-lywio (de >) yn eich galluogi i glicio a neidio i eitemau penodol. I ddychwelyd i'r ddewislen, cliciwch ar y saethau ar i fyny ar ochr dde y penynnau lliw.

Os oes gennych adborth i'w roi ar y cylchlythyr, neu os hoffech gyfrannu yn y dyfodol cofiwch gysylltu â mi ar 02920 625 004 neu trwy ebost wrth glicio yma.

Flwyddyn Newydd Dda o Gymorth Cynllino Cymru,

Sioned Pearce
Swyddog Datblygu a Hyfforddiant

Cyhoeddir y Cylchlythyr hwn yn chwarterol yn y Gwanwyn, yr Haf, yr Hydref a'r Gaeaf.

Yn y gyfrol hon ....

- Newyddion
- Astudiaeth achos: apêl teithiwr
- Ymgysylltu: ymgysylltu neu ynghynghori
- Allgymorth: cynllunio mannau gwyrdd
- Ein newyddion
- Hyfforddiant
- Cysylltwch â ni

Derbyniad Senedd Cymorth Cynllunio Cymru / RTPI Cymru

Cynhaliodd Cymorth Cynllunio Cymru ac RTPI Cymru Dderbyniad Senedd ar y cyd yng Nghynulliad Cymru ar Dachwedd 1af. Mynychodd Aelodau'r Cynulliad, swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr allweddol eraill i ddarganfod mwy am y system gynllunio a sut y gall cymunedau ymgysylltu â hyn.

Cafwyd araith ar y rôl bwysig sydd gan RTPI Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru mewn datblygiad cynaladwy gan John Griffiths, y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Cafwyd araith fer ar bwysigrwydd cynorthwyo cymunedau i ymgysylltu â chynllunio a rôl cynllunio mewn cynaliadwyedd gan ein Prif Weithredwr, Elwyn Thomas.

Cynhaliodd RTPI Cymru ymarfer a gwahodd cyfranogwyr i roi dotiau lliw ar gyfres o gwestiynau cynllunio 'pryfoclyd'; ceir crynodeb o'r canlyniadau yma.

Roedd y derbyniad yn llwyddiant ac o ganlyniad gofynnodd rhai o Aelodau'r Cynulliad am rai o'n prif gyhoeddiadau yn ogystal a creu diddordeb ar y diwrnod. Rydym yn bwriadu cynnal derbyniad arall y flwyddyn nesaf.

Ymlaen at Ddeddf Cynllunio Cymreig: galw am dystiolaeth

Yn dilyn ennill pwerau creu polisïau sylfaenol mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn adolygiad o'r ddeddfwriaeth cynllunio bresennol. Sefydlwyd Grŵp Cynghori Annibynnol sydd nawr yn galw am sylwadau a barn gan y cyhoedd ar sut y gellir gwneud y system gynllunio yn haws i'w deall a'i defnyddio.

Mae hyn yn gyfle gwych i roi sylwadau ar sut y dylai'r system gynllunio yng Nghymru ddatblygu yn y dyfodol. Os hoffech wybod mwy neu os hoffech ymateb i'r ymgynghoriad cliciwch yma.

Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar **Chwefror 3ydd 2012**.

Fframwaith fonitro strategol i'r system gynllunio

Mae'r ymgynghoriad hwn yn bwriadu mesur effaith cynllunio ar gyflawni datblygu cynaliadwy, o'i ddiffinio gan gynllun cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned. Yn dilyn prosiect ymchwil gan yr ymgynghorwyr Arup ar sut y gellir mesur yr effaith hon, mae'r ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar Fframwaith Fonitro Strategol arfaethedig.

Gan fod cynlaiawdywedd wrth gaoln agenda Llywodraeth Cymru a chan mai cynllunio yw un o'r ychydig awiantaethau dosbarthu, byddwn yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae'n rhaid cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad erbyn **Ionawr 27ain 2012**.

Am fwy o wybodaeth neu i ymateb i'r ymgynghoriad hwn cliciwch yma.

Astudiaeth achos: apêl teithiwr

Nôl i'r top

Ym mis Gorffennaf 2009 cysylltodd teithiwr â Chymorth Cynllunio Cymru am gymorth i gyflwyno cais cynllunio ar ei ran ef, ei wraig, a'u chwe phlentyn. Roedd wedi cyflwyno cais cynllunio o'r blaen i fyw ar safle a ddefnyddid i gadw ceffylau mewn stablau ond nid oedd yn llwyddiannus. Bu gwirfoddolwr Cymorth Cynllunio Cymru yn helpu'r teulu i gyflwyno ail gais yn gofyn am ganiatâd cynllunio dros dro am dair blynedd. Yn y cyfnod rhwng y cais cyntaf a'r ail roedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Cylchlythyr Sipsiwn a Theithwyr * (2007) oedd yn arwyddocaol ac yn amserol i'r cais.

Gwrthodwyd yr ail gais hefyd a bu'n gwirfoddolwr yn helpu'r teulu i gyflwyno apêl. Yn ystod y broses apêl daeth y teulu'n ddigartref ac nid oedd safleoedd eraill yn ardal Casnewydd. Cynhaliwyd y gwrandawiad apêl ym mis Gorffennaf eleni ac roedd y gwirfoddolwr yno i gynrychioli'r teulu o flaen yr arolygydd cynllunio. Enillwyd yr apêl gyda'r Arolygydd yn rhoi caniatâd dros dro am ddwy flynedd i'r teulu. Roedd y teulu wrth eu bodd gyda'r canlyniad.

Mae'r mathau hyn o achosion yn tueddu i fod yn drwm o ran adnoddau ac yn golygu bod dau neu dri gwirfoddolwr yn gweithio ar yr achos ar yr un pryd. Gan mai adnoddau cyfyngedig yn unig sydd gennym fel elusen, ni allwn dderbyn cymaint o achosion ag y dymunem. Felly ym mis Hydref cynhaliwyd digwyddiad hyfforddiant gennym ar gyfer gwirfoddolwyr ar weithio gyda sipsiwn a theithwyr. Dyluniwyd y digwyddiad ar gyfer gweithwyr achos a deliwyd gydag ystod o faterion cynllunio a materion eraill sy'n berthnasol i weithio gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

Ar hyn o bryd mae Cymorth Cynllunio Cymru yn helpu teulu arall o deithwyr i ennill caniatâd cynllunio. Mae'n ddiddorol bod ŵyr y teulu (gweler isod) yn gobeithio bod yn rhan o dîm paffio y gemau Olympaidd a disgwylir iddo ennill medal yn 2012.

Llun 1: Teulu o deithwyr

Llun 2: Safle teithwyr, Casnewydd

O ganlyniad i'n gwaith gyda chymunedau sipsiwn a theithwyr, rydym wedi cynorthwyo Kllywodraeth Cymru i gynhyrchu cyhoeddiad canllaw hygyrch, *Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafán Sipsiwn a Theithwyr*. Gellir lawrlwytho hwn o'n gwefan wrth glicio yma. Gellir archebu copïau caled trwy gysylltu â Sioned.

***** Am fwy o wybodaeth ar Gylchlythyr Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru cliciwch yma

Ymgysylltu

Nôl i'r top

Ydym ni'n yngynghori neu'n ymgysylltu ?

Mewn erthygl gan Gymorth Cynllunio Cymru yn rhifyn yr haf o gylchlythyr chwarterol RTPI Cymru *Cynllunio* ystyriwyd y gwahaniaethau allweddol rhwng ymgynghori ac ymgysylltu mewn cynllunio. Mae'r erthygl yn dadlau bod pwysau cynyddol ar gymunedau i ymgysylltu â chynllunio, gydag ymgynghoriaeth yn gweithredu'n gyfredol fel 'falf ddiogelu'. Mae'n trafod yr opsiynau posibl ar gyfer newid ac yn gorffen gyda neges allweddol sydd wrth galon ein gwaith: dylem ddefnyddio ystod o dechnegau cyfranogi yn hytrach nag un rhagordeiniedig unigol pan yn ymgysylltu â chymunedau mewn cynllunio. I weld yr erthygl cliciwch yma (tud. 23).

Mae'r ddelwedd isod yn dangos **Ysgol Cyfranogaeth** Sherry Arnstein (*Ladder of Participation*, *1968*) yr ydym yn ei ddefnyddio yn ein hyfforddiant i ddangos y gwahaniaethau rhwng ymgysylltu ac ymgynghoriad. Mae'r raddfa y mae cynllunio yn ymgysylltu yn hytrach nag ymgynghori yn dangos y gwahaniaeth rhwng gweithio mewn partneriaeth â chymunedau, yn hytrach na gweithio drostynt.



Am fwy o wybodaeth am dechnegau cyfranogi cymunedol Cymorth Cynllunio Cymru cysylltwch â ni trwy glicio yma.

Allgymorth: cynllunio mannau gwyrdd

Nôl i'r top

Fel rhan o'n gweithgareddau allgymorth rydym wedi bod yn gweithio i greu cysylltiadau rhwng cynllunio a mannau gwyrdd. Mae cynllunio yn bwysig yn narpariaeth a rheolaeth mannau gwyrdd ac mae polisi cynllunio yn chwarae rhan mewn penderfynu pa fannau gwyrdd sy'n mynd ble mewn cymunedau a chymdogaethau. Gall cynllunio weithio fel rhwystr neu hwylusydd mewn defnydd a darpariaeth o fannau gwyrddd yng Nghymru ac mae gwybod mwy am gynllunio yn werthfawr i'r rhai sydd am dyfu eu cymunedau. Rhan o'n gwaith yw gwneud cynllunio yn fwy hygyrch i bawb ac i leihau diddordeb adweithiol mewn cynllunio (e.e. peidio â chymryd diddordeb tan ei fod yn effeithio'n uniongyrchol arnoch chi). Gorau po gyntaf y byddwch yn cymryd rhan ac yn dod i ddeall yna bydd yn hawdd i chi gymryd rhan a dylanwadu os bydd mater yn codi parthed tir ar gyfer twf.

Ein hamcan yw cynhyrchu gwybodaeth ar gynllunio a mannau gwyrdd yn cynnwys rhandiroedd a mentrau tyfu cymunedol yng Nghymru. Gwneir peth o'r gwaith hwn mewn partneriaeth â Ffederasiwn Ffermydd Dinas a Gerddi Cymunedol a'r prosiect sy'n lleoledig yng Nghymru, Tyfu Pobl.

Gwyliwch y gofod (gwyrdd) hwn am fwy o wybodaeth ar ganlyniadau'r prosiect a cofiwch gysylltu â Sioned trwy glicio yma, am fwy o wybodaeth.

An fwy o wybodaeth ar Tyfu Pobl cliciwch yma.

Cynhadleddau

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi cymryd rhan mewn cynhadledd blynyddol tri grwp sy'n allweddol i'n gwaith:

Un Llais Cymru – stondyn arddangos - Hydref 2011

Cymunedau Gyntaf – stondyn arddangos a weithdy ar cynllunio – Tachwedd 2011

Tenant Participation Advisory Service (TPAS) Cymru – stondyn a weithdy – Tachwedd 2011

Apwyntio Cynorthwy-ydd Cynllunio

Mae Cymorth Cynllunio Cymru bellach wedi apwyntio ei Gynorthwy-ydd Cynllunio cyntaf, Angharad Hobbs, a ddaeth i'r swydd ynghanol mis Mehefin. Mae Angharad yn gweithio yn ein swyddfa yng Nghaerdydd ar Ddydd Llun, Dydd Mawrth a Dydd Iau ac yn delio â phob galwad i'r Llinell Gymorth. Rydym yn filch iawn i goresawu Angharad i'r tîm!

Gwirfoddolwraig newydd i'r swyddfa

Rydym hefyd yn falch iawn i groesawu ein gwirfoddolwraig swyddfa newydd, Stephanie Irvine, i'r tîm. Ymunodd Stephanie â ni yn gynnar ym mis Tachwedd am leoliad o dri mis yn y swyddfa yng Nghaerdydd yn gweithio tridie'r wythnos ar ystod o brosiectau.

Adroddiad Blynyddol ac Adolygiad Blynyddol

Yn ddiweddar rydym wedi wedi cyhoeddi ein Adroddiad Blynyddol 2010-11, sy'n cynnwys gwybodaeth ar y gweithgareddau rydym wedi cymryd rhan ynddynt dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym hefyd wedi argraffu ein Adolygiad Blynyddol cyntaf ar ddwy dudalen yn rhoi crynodeb byr ac hygyrch o'r prif adroddiad.

Gallwch lawrlwytho'r **adroddiad** trwy glicio yma, neu gallwch archebu copi papur o'r **adolygiad** trwy ebostio info@planningaidwales.org.uk

Taflenni newydd 'ymarfer da'

Rydym wedi paratoi'r pedair taflen isod i arddangos ein gwaith yn ymgysylltu â grwpiau cymuned ar faterion cynllunio yng Nghymru. Os hoffech gael copi o unrhyw rai o'r rhain ebostiwch Sioned trwy glicio yma.

Prosiect 'Y Ffordd Ymlaen' Anabledd Cymru

Mae 'Y Ffordd Ymlaen' yn brosiect sydd wedi ei gydlynu gan Anabledd Cymru ar gyfer grwpiau mynediad a chynllunwyr. Ei fwriad yw codi ymwybyddiaeth o anabledd a materion cydraddoldeb yn y broses gynllunio. Traddododd Cymorth Cynllunio Cymru fodiwl hyfforddiant yn ail gyfnod prosiect 'Y Ffordd Ymlaen' Anabledd Cymru ar Orffennaf 19eg yn Abertawe.

Teitl hyfforddiant Y Ffordd Ymlaen mwyaf diweddar Cymorth Cynllunio Cymru yw 'Cyflwyniad i'r system Gynllunio' a gynhaliwyd ar Fedi 26ain yn Glasdir, Llanrwst, Gogledd Cymru. Am fwy o wybodaeth ar Anabledd Cymru a'i waith yn ymgyrchu am gydraddoldeb i'r anabl cliciwch yma. Am fwy o wybodaeth ar y prosiect Y Ffordd Ymlaen cliciwch yma.

Hyfforddiant ar gynllunio i Gynghorau Tref a Chymuned

Ers mis Hydref 2010 rydym wedi traddodi deuddeg sesiwn hyfforddiant yn llwyddiannus mewn partneriaeth ag Un Llais Cymru ac un sesiwn wedi ei chreu'n benodol ar gyfer Cyngor Tref Maesteg. Mae cynlluniau bellach ar y gweill ar gyfer gwaith partneriaeth yn y dyfodol gydag Un Llais Cymru i draddodi mwy o hyfforddiant cynllunio.

Mae'n diolch yn fawr iawn i'r deunaw gwirfoddolwr o Gymorth Cynllunio Cymru a gefnogodd y tri digwyddiad ar ddeg. Roedd hyn yn ymateb ardderchog ac rydym yn gwerthfawrogi eu holl ymdrechion a'r adborth.

Os hoffech wirfoddoli i Gymorth Cynllunio Cymru fel cynllunydd neu fel gwrifoddolwr cymunedol cofiwch gysylltu â James trwy glicio yma

Cysylltu â Cymorth Cynllunio Cymru

Gwefan: www.planningaidwales.org.uk

Llinell Gymorth Cynllunio: 02920 625 000

Swyddfa: 02920 625 009

Ebost: info@planningaidwales.org.uk

Cyfeiriad:
174 Heol yr Eglwys Newydd
Y Mynydd Bychan
Caerdydd
CF14 3NB

Staff Cymorth Cynllunio Cymru

Elwyn Thomas, Prif Weithredwr
Ffôn: 01766 762 244
Ebost: elwyn@planningaidwales.org.uk

James Davies, Cynllunydd a Rheolwr Achos
Ffôn: 02920 625 006
Ebost: james@planningaidwales.org.uk

Sioned Pearce, Swyddog Datblygu a Hyfforddiant
Ffôn: 02920 625 004
Ebost: sioned@planningaidwales.org.uk

Angharad Hobbs, Cynorthwy-ydd Cynllunio
Ffôn: 02920 625 017
Ebost: angharad@planningaidwales.org.uk

Kay Sharman, Swyddog Ariannol / Gweinyddydd
Ffôn: 02920 625 009
Ebost: kay@planningaidwales.org.uk